# BETH SY'N DIGWYDD GYDA CHAPEL BETHEL

Cafodd Grŵp Gweithredu Bethel ei ffurfio ar ddiwedd 2023, i weithredu ar yr hyn ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad cymunedol yn Nolwyddelan yn ystod 2022-2023. Y bwriad ydy addasu capel gwag Capel Bethel ar gornel Stryd yr Eglwys a'r A470 yn ased gwerthfawr i'r gymuned. Yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau cymunedol presennol, bu i Grŵp Gweithredu Bethel sefydlu ei hun fel elusen fach ym mis Ionawr 2024.
Gweledigaeth y Grŵp ydy manteisio ar safle amlwg y capel a'i dreftadaeth ddiwylliannol i greu gofod cymunedol amlbwrpas, sy'n hunangynhaliol yn ariannol, sy'n gallu cefnogi ac ychwanegu at sefydliadau a busnesau eraill yn y pentref gan gynnwys gwesty Gwydyr Hotel sydd wedi'i adnewyddu yn ddiweddar. Mae hon yn weledigaeth gaiff ei rhannu gan sawl unigolyn ddaeth i ddigwyddiadau Gŵyl y Gwanwyn a'r Gerddi Agored eleni.

Hyd yma, mae'r grŵp wedi:

- Anfon datganiad swyddogol o ddiddordeb i brynu Capel Bethel i'r cyfreithwyr ar ran yr Ymddiriedolwyr (y rhai sy'n gyfrifol yn bresennol am yr adeilad).
- Cwblhau ymholiad cynllunio cyn-ymgeisio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Dechrau ar y broses o geisio cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a bellach yn y broses o gyflwyno cais lawn.

Mae'r Grŵp wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y gymuned ar y gweithgareddau cynnar hyn yn ystod ymgynghoriadau a digwyddiadau cyhoeddus lleol. Bu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ymateb gyda llythyr swyddogol o gefnogaeth yn cadarnhau bod Capel Bethel wedi'i gynnwys ar eu rhestr o adeiladau o ddiddordeb hanesyddol. Er mwyn hwyluso ceisiadau grant i'r dyfodol, mae'r Grŵp bellach yn dechrau casglu gwybodaeth am y capel a'i ddefnydd hanesyddol gan y gymuned.
Mae'r Grŵp a'r gymuned yn pryderu am gyflwr yr adeilad sy'n dirywio. Mae'r Grŵp yn agored i ystyried pob dewis all helpu i'w sefydlogi, wrth i waith codi arian barhau ar gyfer prynu, adnewyddu ac addasu'r adeilad yn ased cymunedol.
Mae'r Grŵp yn chwilio am wybodaeth hanesyddol, straeon a lluniau yn ymwneud â Chapel Bethel. Rydym ni hefyd yn chwilio am bobl sy'n angerddol am y prosiect hwn a chyda'r un weledigaeth a'r sgiliau i'w helpu i symud ymlaen. Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth am hanes y capel, neu os allwch chi helpu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch gydag un o'r canlynol:

*Richard Griffin, Cadeirydd,* ***m****. 07736 059925 richard_griffin@btinternet.com*
*Helena Wróblewska, Ysgrifennydd* ***m*** *07828 761114 helena_w@btinternet.com*
*Jon Reynolds, Trysorydd,* ***m****. 07722 040778 jon1reynolds@outlook.com*